



cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

Gair i Gall



Ffurio eich cyflwyniad cyflym Cenhadaeth a Gwerthoedd

Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: ddarparwyr cludiant cymunedol sydd eisiau siarad â phobl eraill er mwyn tanio diddordeb yn eich mudiad neu'ch syniad.

Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Datblygu datganiadau syml ond effeithiol y gellir eu teilwra at ddibenion codi arian gwahanol.

Beth fydd ei angen arnoch chi:

Stopwatsh

Beiro goch a'r gallu i olygu

Dealltwriaeth o'ch gweledigaeth a'ch cenhadaeth

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Araith fer, wedi'i pharatoi ydy cyflwyniad cyflym, sy'n egluro mewn modd clir a chryno beth mae'ch mudiad yn ei wneud, a pham mae hynny o bwys. **Mae'n araith gryno, llawn perswâd y gallwch ei defnyddio i danio diddordeb yn yr hyn mae'ch mudiad yn ei wneud.** Gallwch ei ddefnyddio hefyd i greu diddordeb mewn prosiect, syniad neu gynnyrch.
- Bydd cyflwyniad cyflym da yn para rhwng 30 – 60 eiliad, ac mae'r enw Saesneg 'elevator pitch' yn seiliedig ar yr amser sydd gennych mewn taith lifft gyflym. **Dylai fod yn ddiddorol, yn gofiadwy ac yn anad dim, yn fyr!** Mae angen iddo egluro hefyd beth sy'n gwneud eich mudiad, neu'ch prosiect, yn unigryw.

- Un ffordd rwydd o feddwl am eich cyflwyniad cyflym yw ei ystyried yn **Gynodeb Gweithredol** gan gofio mai cydio yn sylw pobl yw'r bwriad, nid eu diflasu.
- **Pryd dylid defnyddio cyflwyniad cyflym:** gallwch ddefnyddio un i gyflwyno eich mudiad i ddarpar wirfoddolwyr neu gefnogwyr. Neu i ddweud wrth pobl beth rydych chi'n wneud yn eich gwaith, neu pan fyddwch yn ffonio swyddog grantiau neu ddarpar gyllidwr i gyflwyno'ch hun neu'ch prosiect neu'ch syniad. Neu gallech seilio llythyr eglurhaol i ymddiriedolaethau elusennol arno neu ei ddefnyddio fel datganiad agoriadol yn eich 'achos dros gael cymorth'.
- **Saerño cyflwyniad cyflym:** gall gymryd cryn dipyn o amser i gael eich cyflwyniad yn iawn. Mae'n debyg y byddwch yn mynd trwy sawl fersiwn cyn bodloni ar un sy'n debygol o ennyn ymateb, ac sy'n swnio'n naturiol mewn sgwrs.
- **Beth yw eich nod - dechreuwch trwy feddwl am amcanion eich cyflwyniad.** Ydych chi eisiau cyflwyniad syml, sy'n ennyn diddordeb er mwyn egluro beth rydych chi'n ei wneud yn y gwaith, neu gyflwyniad sy'n debygol o ennyn ymateb er mwyn cyflwyno'ch hun i gyllidwyr?
- **Eglurwch beth rydych chi'n ei wneud - dechreuwch eich cyflwyniad trwy ddisgrifio'r hyn mae'ch mudiad yn ei wneud.** Byddwch yn benodol: pwy ydych chi, pwy yw'r mudiad, beth yw'ch cenhadaeth, ble rydych chi wedi'ch lleoli, ble mae canolbwynt eich effaith, pam dylai'ch mudiad fod o bwys i'r person rydych chi'n siarad ag ef/hi.
- Diffiniwch y broblem sy'n werth ei datrys a **chanolbwyntiwch ar sut rydych chi'n helpu pobl** (disgrifiwch eich datrysiad). Ychwanegwch wybodaeth neu ystadegyn sy'n dangos gwerth eich gwaith.
- Gofynnwch y cwestiwn hwn i'ch hunan wrth i chi ddechrau ysgrifennu: beth ydych chi fwyaf awyddus i'ch cynulleidfa ei gofio amdanoch chi? **Cofiwch y dylai'ch cyflwyniad eich cyffroi chi i ddechrau; wedi'r cyfan, os nad yw'r hyn sydd gennych i'w ddweud yn eich cyffroi chi, ni fydd yn cyffroi'ch cynulleidfa chwaith.** Efallai na fydd pobl yn cofio popeth y byddwch yn ei ddweud, ond byddan nhw'n cofio'ch brwdfrydedd a'ch angerdd.
- Rhowch wybod beth yw'ch *USP* (rhinwedd gwerthu unigryw). **Nodwch beth sy'n eich gwneud chi, eich mudiad neu'ch syniadau yn unigryw.** Bydd eisiau i chi roi gwybod beth yw'ch *USP* ar ôl i chi siarad am yr hyn rydych chi'n ei wneud. Sut ydych chi'n wahanol? Beth sy'n gwneud i chi sefyll allan?
- Darllenwch y cyflwyniad yn uchel ac amserwch eich hun - torr wch unrhyw beth nad oes gwir angen iddo fod yno. **Mae angen i'ch cyflwyniad fod yn fachog ac yn rymus, felly gorau po fyrraf.** Mae llai yn fwy. Dylech ymarfer, gan fod angen i chi swnio'n naturiol pan fyddwch yn siarad, ond peidiwch â swnio fel petaech wedi gorymarfer, gan fod hynny'n gallu swnio'n fflat.
- Dyma enghraifft o gyflwyniad cyflym:

“Helo, Andrew ydw i, Rheolwr Prosiect i Gludiant Cymunedol Rhywdre; ry’n ni’n darparu cynllun galw’r gyrrwr fforddiadwy a hygyrch. Heb ein gwasanaeth ni, byddai pobl hŷn ac anabl yn gaeth i’w cartrefi ac yn methu mynd allan ar gyfer eu hanghenion sylfaenol, fel eu taith siopa wythnosol i’r archfarchnad, apwyntiadau meddyg, cael trin eu gwallt, ac ymweld â’r teulu a ffrindiau. Mae poblogaeth Rhywdre yn hŷn na’r cyfartaledd cenedlaethol, a does gan 45% o aelwydydd pensiynwyr ddim mynediad at gar. Oni bai eu bod nhw’n gallu dibynnu ar ein cludiant o ddrws i ddrws, byddai’r bobl yma’n gallu mynd yn unig iawn a cholli eu hiechyd. Mae pobl yn deall erbyn hyn bod unigrwydd yn lladd: mae’n gallu bod mor niweidiol i iechyd yn yr hirdymor ag ysmegu 15 sigarét y dydd. Ry’n ni’n helpu i gysylltu pobl â’i gilydd yn y gymuned ac ry’n ni eisiau datblygu rhagor o weithgareddau fydd yn defnyddio’n bws mini i gludo pobl yn ddiogel i’r gweithgareddau ac yn ôl. Mae ein teithwyr wedi datblygu perthynas hyfryd gyda’n gyrrwyr proffesiynol, gofalgar, a byddan nhw’n dweud yn aml bod ein gwasanaeth yn achubiaeth. Allech chi’n helpu ni i gyrraedd rhagor o bobl trwy gyllido’n prosiect newydd os gwelwch yn dda?”

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i’r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.